**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**20 Gorffennaf 2015**

**ADRODDIAD MONITRO'R IAITH GYMRAEG**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth i Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2014-15 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.

## Y Cefndir

2 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl sy'n nodi'r cynnydd a wnaed i gwrdd â'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg dan y trefniadau o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Gwybodaeth

3 Mae dyfodiad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi arwain at fwy o bwyslais ar hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy Gymru, a hynny drwy godi ymwybyddiaeth o statws swyddogol yr iaith a gwella safonau er mwyn sicrhau cysondeb drwy Gymru. Croesawyd hyn gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a bydd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ymateb i rwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dyfodiad y Safonau Iaith newydd.

4 Y llynedd, fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg groesawu llawer o agweddau ar ein gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg a'r cynnydd cyffredinol a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2014-15.

5 Unwaith eto, dyma gyfnod pryd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi sicrhau cryn gynnydd mewn perthynas â'r Gymraeg.

6 Caiff data ynghylch sgiliau Cymraeg a dysgu Cymraeg eu cofnodi yng nghronfa ddata Adnoddau Dynol y Gwasanaeth. Mae'r data ar gyfer 2014-15 i'w cael yn yr Adroddiad Monitro sy'n rhoi'r crynodeb o'r prif ganfyddiadau ac yn nodi'r canlyniadau cadarnhaol a'r heriau parhaus y bydd y Gwasanaeth yn mynd ar eu holau eto yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn ceisio gwella. Dyma'r canfyddiadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn adrodd hon:

- Mae canlyniadau cadarnhaol a gwelliannau yn dystiolaeth fod y Gwasanaeth yn parhau â'i ymrwymiad i'r Gymraeg, er gwaethaf y cyllidebau llai a'r heriau ariannol.
- Er bod nifer y gweithlu wedi gostwng eto, mae strategaeth y Gwasanaeth ar gyfer y Gymraeg yn parhau i godi lefel y sgiliau siarad Cymraeg.
- Mae gan y Gwasanaeth ddealltwriaeth dda o broffil sgiliau iaith ei weithlu a pha feysydd i'w targedu er mwyn gwella.
- Mae sgiliau Cymraeg y staff yn parhau i wella – gyda gostyngiad yn nifer y staff sy'n parhau â sgiliau isel ar Lefel 0 neu 1, cynnydd yn nifer y staff sydd o leiaf yn cyrraedd y lefel isaf o sgiliau (Lefel 2 neu uwch), a chynnydd yn nifer y staff sydd wedi cyrraedd y sgiliau angenrheidiol ar Lefel 3 neu 4 ar gyfer eu swyddi eleni.
- Mae gwelliant sylweddol yn sgiliau siarad Cymraeg y staff sydd mewn swyddi ar y prif dderbynfeydd a gweithredwyr yr ystafell reoli ac yn cyrraedd y lefel angenrheidiol.

7 Fe lansiodd y Gwasanaeth fodiwl e-ddysgu ar gyfer Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith ar 1$^{af}$ Mawrth, i gyd-fynd â Dydd Gŵyl Ddewi. Mae'r modiwl yn golygu bod yr hyfforddiant yn fwy hygyrch i staff sy'n gweithio'n rhan amser, e.e. diffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw (y System RDS). Yn galonogol, roedd bron i 90 o bobl wedi cwblhau'r modiwl yn ystod y mis cyntaf ar ôl ei lansio. Mae sesiynau ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb yn parhau ochr yn ochr â'r modiwl e-ddysgu.

8 Mae Adroddiadau Monitro blaenorol wedi cyfeirio at y modd y bu’r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cymryd rhan yn yr ymgyrch ‘Mae Gen Ti Ddewis’ i hyrwyddo’r ffaith fod Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd llwyddiant yr ymgyrch yn golygu bod nifer y trigolion yng Ngogledd Cymru a oedd yn derbyn archwiliadau diogelwch tân yn y cartref drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi o 6% i 20% - ar ei uchaf - mewn cyfnod o dair blynedd. Y llynedd, bu gostyngiad bychan pellach yn y niferoedd hyn i 14%, ond mae’r Gwasanaeth yn parhau gyda’i ymrwymiad i hyrwyddo’r archwiliadau hyn yn y ddwy iaith ac mae’n parhau i hyrwyddo’r gwasanaeth hwn yn eang.

9 Mae Cynllun Iaith Gymraeg GTAGC yn datgan bod gofyn i bob aelod newydd o’r staff, a’r rhai sy’n llwyddo i gael dyrchafiad, ddysgu Cymraeg sgyrsiol sylfaenol ar safon Lefel 2 yn ein rhaglen CD, ac mae hyn wedi parhau i gael ei hyrwyddo’n llwyddiannus ymhlith staff yn ystod 2014-15. Mae’r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi aelodau o’r staff sy’n dymuno mynychu cyrsiau yn eu cymuned leol yn hytrach na chyrsiau mewnol, ac mae’n cefnogi hyfforddiant Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr.

10 Mae’r Adroddiad Monitro hefyd yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed wrth hyrwyddo’r Gymraeg yn y gweithle yn ogystal â darparu gwasanaeth dwyieithog i’r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad parhaus i ganfod a chefnogi Hyrwyddwyr y Gymraeg ledled y rhanbarth. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd gan y Gwasanaeth 25 o Hyrwyddwyr yn y rôl, a’r rheini’n parhau i fentora eraill ac i dderbyn arweiniad a chymorth wrth iddynt gyfrannu at hyrwyddo’r iaith a hwyluso dysgu.

11 Mae’r Gwasanaeth yn parhau â’i ymrwymiad i hyrwyddo’r iaith ac i annog datblygiad sgiliau Cymraeg ymhlith ei staff. Mae’r gwaith hwn yn sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu i bobl Gogledd Cymru, ac mae’n annog y defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle.

## Argymhelliad

12 Bod yr Aelodau’n nodi’r cynnydd a wnaed mewn perthynas â’r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn cymeradwyo Adroddiad Monitro 2014-15 cyn ei gyflwyno’n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.